# Absennol o'r Gwaith

## Cyflwyniad

Bydd eich buddion yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yn cael eu heffeithio gan gyfnod o absenoldeb di-dâl awdurdodedig neu anawdurdodedig. Fodd bynnag, nid yw'r ffeithlen hon yn ymdrin ag unrhyw gyfnod o absenoldeb sy'n ymwneud â phlant. Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at y Ffeithlen **Mamolaeth, Tadolaeth, Mabwysiadu ac Absenoldeb Rhiant a Rennir**.

## A fyddwch yn parhau i adeiladu pensiwn yn ystod cyfnod o absenoldeb di-dâl?

Yn ystod unrhyw gyfnod o absenoldeb di-dâl awdurdodedig / anawdurdodedig NI fyddwch yn cronni unrhyw bensiwn pellach yn ystod yr adeg yma. Cyfeirir at hyn fel **Pensiwn Coll**. Fodd bynnag, NI fydd unrhyw effaith ar eich buddion pensiwn os ydych yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch neu anaf.

## A fydd yn bosib prynu'r 'pensiwn coll' yn ôl?

Ar ôl i chi ddychwelyd i'r gwaith bydd gennych yr opsiwn i brynu'n ôl y pensiwn a gollwyd drwy drefniant **Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY)**.

Ar gyfer cyfnod awdurdodedig o absenoldeb di-dâl, bydd y gost o brynu eich pensiwn coll yn ôl yn cael ei rhannu rhyngoch chi a'ch cyflogwr; 1/3 i chi, fel yr aelod a 2/3 i'ch Cyflogwr. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi wneud etholiad i brynu yn ôl o fewn 30 diwrnod o ddychwelyd i'r gwaith (neu gyfnod hirach fel mae eich Cyflogwr yn caniatáu). Os ydych yn ethol i brynu'r pensiwn coll yn ôl ar ôl 30 diwrnod ac na fydd eich cyflogwr yn ymestyn y ffenestr hon, byddwch yn talu 100% o'r cyfraniadau.

## Beth am gyfnod absenoldeb heb awdurdod?

Am unrhyw gyfnod o absenoldeb heb awdurdod, er enghraifft **streic**, dim ond yr opsiwn o dalu'r gost lawn sydd gennych, gan NA fydd Cyfraniad yn cael ei wneud gan eich Cyflogwr. Does dim rhaid i chi wneud etholiad o fewn 30 diwrnod o ddychwelyd i'r gwaith, fodd bynnag, dylech wneud eich etholiad mor fuan â phosib, gan fod y ffactorau sy'n cael eu defnyddio i gyfrifo'r gost o brynu'n ôl eich pensiwn coll yn gysylltiedig ag oedran.

## Beth os oeddech 'ar seibiant' (furlough) o dan y Cynllun Cadw Swyddi yn ystod y cyfnod COVID19?

Os oeddech ar gyflog is oherwydd eich bod 'ar seibiant', bydd faint o bensiwn rydych chi'n ei gronni yn ystod y cyfnod hwn hefyd yn lleihau, er mai dim ond ar y tâl a gawsoch y byddwch chi wedi talu cyfraniadau pensiwn.

Gallwch ymrwymo i gontract Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY) i brynu pensiwn ychwanegol i wneud i fyny am y pensiwn a gollwyd yn ystod y cyfnod hwn. Sylwch nad oes rhaid i'ch cyflogwr dalu tuag at y gost.

## Sut cyfrifir y gost o brynu'r Pensiwn Coll yn ôl?

Am gyfnod awdurdodedig o absenoldeb di-dâl, mae'r gost yn seiliedig ar ganllawiau a gyhoeddwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) a'ch **Cyflog Pensiynadwy Tybiedig** (CPT), sef cyfartaledd y tâl pensiynadwy a gawsoch o fewn y 3 mis cyflawn (neu 12 wythnos os telir yn wythnosol) cyn y gostyngiad yn eich cyflog. Fodd bynnag, os yw'n absenoldeb anawdurdodedig (megis streic), mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar y cyflog pensiynadwy y gwnaethoch ei golli yn ystod eich cyfnod o absenoldeb.

## Sut ydych yn prynu eich Pensiwn Coll yn ôl?

Er mwyn prynu eich pensiwn coll yn ôl, bydd angen i chi gael gwybod faint o dâl pensiynadwy rydych wedi'i golli yn ystod eich cyfnod o absenoldeb. Mae eich Cyflogwr yn gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth yma i chi.

Byddwch wedyn yn gallu cael mynediad i'r **Modelwr CPY** ar-lein i gyfrifo'r gost o brynu yn ôl eich pensiwn coll:

https://www.lgpsmember.org/more/apc/lost.php

Bydd angen i chi wedyn lenwi'r Ffurflen Gais oddi ar y modelwr ar-lein a dychwelyd copi i'ch cyflogwr a'r Gronfa Bensiwn.

Gallwch brynu eich pensiwn coll yn ôl mewn nifer o ffyrdd:

- fel taliad lwmp swm unwaith trwy eich cyflog fel bod eich taliad yn denu rhyddhad treth
- fel taliad lwmp swm unwaith yn cael ei dalu'n syth i'r gronfa bensiwn, ond bydd rhaid i chi gysylltu â CThEM eich hun er mwyn derbyn eich rhyddhad treth
- yn fisol dros gyfnod isafswm o un flwyddyn trwy eich cyflog fel bod eich taliadau yn denu rhyddhad treth

Fodd bynnag, os dymunwch dalu'n fisol efallai y bydd gofyn i chi gael archwiliad meddygol gan Ymarferydd Meddygol Cofrestredig (ar eich cost eich hun) i dystio eich bod mewn 'iechyd rhesymol dda'.

## Beth os ydych yn penderfynu peidio prynu eich pensiwn coll yn ôl?

Bydd y pensiwn a adeiladwyd yn ystod Blwyddyn y Cynllun (1 Ebrill hyd at 31 Mawrth) lle digwyddodd eich cyfnod o absenoldeb yn llai yn ôl cyfran o ganlyniad, sy'n golygu y bydd y pensiwn sy'n daladwy pan fyddwch yn ymddeol (neu yn achos eich marwolaeth) yn llai. Gall hefyd gael effaith ar y dyddiad y gallwch ymddeol a derbyn taliad o'ch buddion heb eu gostwng cyn eich Oedran Pensiwn Arferol (OPA).

## Beth os ydych yn talu cyfraniadau ychwanegol?

Bydd unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) rydych yn eu talu yn parhau i fod yn daladwy yn ystod eich cyfnod o absenoldeb, ar yr amod eich bod yn derbyn digon o gyflog i dalu eich cyfraniad.

Os ydych yn talu CGY ar gyfer yswiriant bywyd ychwanegol, bydd rhaid i chi wneud y trefniadau angenrheidiol i barhau i dalu yn ystod eich cyfnod o absenoldeb er mwyn sicrhau nad yw eich yswiriant yn dod i ben. Os mai dyma'r achos, cysylltwch â'ch Cronfa Bensiwn.

Os ydych yn talu Cyfraniadau Rheolaidd Ychwanegol (CRhY) neu Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY) tuag at brynu pensiwn ychwanegol, neu os ydych yn prynu aelodaeth ychwanegol, rhaid i chi barhau i dalu cyfraniadau yn ystod eich cyfnod o absenoldeb neu bydd eich contract yn dod i ben.

## Ble allwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig, os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn.

## Ymwadiad

Nid yw'r Gronfa Bensiwn yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol.
Ar ôl darllen y ffeithlen hon, efallai yr hoffech gael cyngor ariannol annibynnol er mwyn gwneud penderfyniad deallus.

Gallai'r cyrff hyn eich helpu chi:

Unbiased: https://unbiased.co.uk/
Gwasanaeth Cyngor Arian:
https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/articles/choosing-a-financial-adviser